

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi ar gyfer y Gweinidog Newid Hinsawdd gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022.

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

27 Medi 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Cafodd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ei sefydlu gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y Prif Orchymyn") fel rhan o gynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, i annog y sectorau pŵer, diwydiant a hedfanaeth i leihau allyriadau mewn modd cost-effeithiol. Cafodd ei gynllunio ar y cyd gan Lywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau'r DU ar gyfer lleihau allyriadau a'r nod sero net, yn ogystal â'r llwybr sydd gennym yng Nghymru ar gyfer lleihau allyriadau. Gwnaed diwygiadau i Orchymyn 2020 ar ddiwedd 2020 i alluogi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i weithredu o 1 Ionawr 2021.
- 1.2 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei chyflwyno yn raddol, drwy gyfres o offerynnau statudol. Mae amserlen a threfn y gyfres hon wedi cael eu cynllunio i sicrhau bod darpariaethau cyfreithiol penodol yn cael eu cyflwyno pan fydd eu hangen yn weithredol, gyda dau ddiwygiad arall yn cael eu gwneud ym mis Rhagfyr 2021 ¹ a mis Ebrill 2022²
- 1.3 Ynghynt yn 2022, ymgynghorodd Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ynghylch "Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU". Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o ddiwygiadau arfaethedig yr ystyrid bod eu hangen i fynd i'r afael â'r anghenion technegol a gweithredol a nodwyd yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae angen gweithredu'r rhain cyn blwyddyn 2023 o'r cynllun.
- 1.4 Un o'r cynigion oedd cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yng nghwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o fis Ionawr 2023. Byddai hyn yn helpu i lenwi bwlch yng nghwmpas y Cynllun ers i'r DU ymadael â Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE, ac yn cyflawni ein hymrwymiad i wneud hynny yn Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Brisio Carbon y DU yn y Dyfodol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn nodi bod rhaid i gynllun masnachu allyriadau sy'n berthnasol i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (neu unrhyw gyfuniad ohonynt sy'n cynnwys yr

¹ Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021.

² Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022.

Alban – fel yn yr achos hwn) gael ei sefydlu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

- 2.2 Mae'r weithdrefn briodol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei rhagnodi yn adran 48 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.
- 2.3 Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n ddarostyngedig i adran 48(3) o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Felly, defnyddir y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.
- 2.4 Gan y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir bod gwneud neu osod yr offeryn yn ddwyieithog yn rhesymol ymarferol.
- 2.5 Er bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun ar gyfer y pedair gwlad, ni all Gogledd Iwerddon basio deddfwriaeth gadarnhaol am fod y Senedd wedi methu enwebu Siaradwr ac nid yw Gweithrediaeth wedi cael ei ffurfio. O ganlyniad, mae swyddogion wedi sicrhau cymeradwyaeth weinidogol gan Ogledd Iwerddon i fwrw ymlaen, yn y lle cyntaf, â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Phrydain Fawr yn unig.
- 2.6 Byddai'r ddeddfwriaeth sy'n cynnwys hediadau o Brydain Fawr (Lloegr, yr Alban a Chymru) i'r Swistir yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023. Byddai'r ddeddfwriaeth ar gyfer hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir yn cael ei gweithredu cyn gynted ag y gall Senedd Gogledd Iwerddon fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth.

3. Y Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwnaeth y Prif Orchymyn sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel y byddai'n weithredol o 1 Ionawr 2021 a bydd y cynllun yn para am ddeg mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gosodiadau diwydiannol sy'n defnyddio llawer o ynni, generaduron pŵer a gweithredwyr hedfanaeth gyflwyno ac adrodd ar "lwfansau" sy'n cyfatebu i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o'r cynllun. Mae rhai cyfranogwyr yn derbyn dyraniad o lwfansau am ddim, ac mae manylion y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn tablau dyraniadau.
- 3.2 Mae nifer o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r prif orchymyn – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020; Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021; Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022. Diben y diwygiadau hyn oedd rhoi ar waith newidiadau technegol i wella'r ffordd mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gweithredu ar gyfer cyfranogwyr a rheoleiddwyr.
- 3.3 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth yn neddfwriaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n cynnwys hediadau sy'n gadael y DU ac yn

glanio yn y Swistir, fel yr oedd o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE. Roedd hyn o ganlyniad i gamgymeriad wrth ddrafftio'r Prif Orchymyn.

- 3.4 Cafodd y Prif Orchymyn a nifer o ddiwygiadau eu gwneud o dan adran 44 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 hefyd yn cael ei wneud o dan bwerau a roddir gan yr adran hon.
- 3.5 Fel y nodwyd uchod, mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 yw diwygio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys hedfanaeth o Brydain Fawr i'r Swistir o fewn diffiniad gweithgareddau hedfanaeth, gan ddod â nhw o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (Erthyglau 3 a 5).
- 4.2 Cwmpas tiriogaethol y Gorchymyn hwn yw Lloegr, Cymru a'r Alban. Mae'r Gorchymyn yn cael effaith uniongyrchol ar hedfanaeth. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes unrhyw weithredwyr hedfanaeth yng Nghymru.
- 4.3 Mae Erthygl 4 o'r gorchymyn diwygio yn caniatáu i bersonau nad ydynt wedi gwneud cais am ddyraniadau o lwfansau am ddim yn y gorffennol wneud cais am ddyraniad o lwfansau am ddim, ar sail gweithgareddau hedfanaeth hanesyddol. Mae'n gwneud hyn drwy ddiwygio Erthygl 34L yn y Prif Orchymyn.
- 4.4 Mae Erthygl hefyd yn diwygio Erthygl 34M o'r Prif Orchymyn i'w gwneud yn ofynnol ailgyfrifo'r hawl i ddyraniad o lwfansau am ddim er mwyn ystyried y categori newydd, sef gweithgareddau hedfanaeth yn y gorffennol. Byddai hyn yn cael ei wneud gan reoleiddwyr, a byddai angen i Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ddiweddarau'r tabl o ddyraniadau o lwfansau hedfanaeth am ddim.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cafodd ymgynghoriad 12 wythnos – "Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU" – ei gynnal ar y diwygiadau arfaethedig rhwng 25 Mawrth a

12 Mehefin. Roedd hefyd yn cynnwys cynigion eraill nad oeddent yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn hwn.

- 5.2 Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ac ymateb i'r diwygiad presennol ar gael yn: [Developing the UK Emissions Trading Scheme \(UK ETS\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme)

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Er bod y Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau rheoleiddiol, nid yw'n cael effaith ar Gymru gan nad oes unrhyw weithredwyr hedfanaeth yng Nghymru. Nid yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na'r ffordd mae'n cael ei gymhwyso mewn unrhyw sefyllfa benodol. Nid oes unrhyw gostau neu arbedion i'r sectorau cyhoeddus na'r sector preifat, i elusennau nac i'r sector gwirfoddol o ganlyniad i'r diwygiad hwn, neu os oes maent yn fach iawn. Felly, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a amlinellir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol o is-ddeddfwriaeth.
- 6.2 Dylid nodi hefyd nad yw lefel gyffredinol yr uchelgais ar gyfer yr hinsawdd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu newid gan y cynigion.
- 6.3 Er nad yw gwneud hyn yn ofynnol yn ôl polisi'r Llywodraeth, cafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei gynnal o effaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gostau busnesau, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus, ac mae ar gael ochr yn ochr â'r Prif Orchymyn yn <https://www.legislation.gov.uk/cy>.